

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 25, Mai, 2020 drwy gyfrwng Zoom

Presennol: Gwyn (GW) Iolo Roberts (IPR), Eryl (EO), Dwynwen (DP), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), Richard (RR), Gareth (GER), Iolo ap Gwynn (IAG), Raymond (

Ymddiheuriadau: Dewi, Eirwen, Gareth, Iona

1.	<p><u>CYHOEDDIADAU</u></p> <p>Estynnodd y Cadeirydd gydymdeimlad ag Alun Hughes (Caergybi) yn dilyn ei brofedigaeth trist diweddar o golli ei fam ag i Eirwen Williams (Cyfnither Alun) ar golli ei modryb</p> <p>.</p> <p>Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, nododd ei fod yn un hanesyddol yn hanes y Clwb gan ei fod yn cael ei gynnal trwy gyfrwng offer Zoom a oedd yn caniatáu i bawb fynychu o'u cartrefi. Roedd hyn yn anrffod yn yr amgylchiadau presennol a'r caethiwed yn dilyn pandemig Covid19 yn golygu fod pawb yn gorfod aros gartref. Diolchodd i bawb am eu parodrwydd i ymuno yn yr arbrawf ac amlinellodd sut y byddai'n rhedeg y cyfarfod.</p>
2.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13eg Ionawr, 2020 fel rhai cywir.</p> <p><u>Y Babell Lân – Cwmni Da</u></p> <p>Nododd DAP ei bod wedi derbyn taliad o £150 fel cyfraniad gan Gwmni Da ar gyfer darlledu sgwrs y Clwb yn y Babell Lân yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.</p> <p><u>Cymdeithas Enwau Lleuedd Cymru.</u></p> <p>Adroddodd EO ei fod wedi trafod hefo'r gymdeithas a'u bod yn gofyn i aelodau'r Clwb gefnogi os byddent hefo unrhyw ymgyrchoedd/prosiectau i adnabod a gwarchod enwau lleuedd mewn gwahanol ardaloedd o Gymru yn ôl yr angen.</p> <p><u>Dogfennau'r Clwb</u></p> <p>Adroddodd GW ei fod wedi cysylltu hefo'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth a'u bod wedi mynegi diddordeb mewn derbyn rhai dogfennau, yn ymwneud gyda hanes sefydlu a dyddiau cynnar y Clwb, a gafodd eu harddangos yn yr Eisteddfod yn Llanrwst.</p> <p>Cytunwyd y dylid symud ymlaen hefo hyn a gofyn i IAG holi Anet a Maldwyn a fyddent yn fodlon helpu i geisio adnabod pa ddogfennau sydd ar gael,</p> <p>Dylid hefyd cysylltu hefo Dei Tomos gan y tybir fod ganddo nifer o ddogfennau yn ymwneud a sefydlu a dyddiau cynnar y Clwb</p>
3.	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2020</u></p> <p>Adroddod IPR bod yna amheuaeth os y byddai'n bosib cynnal y cyfarfod blynyddol yn ei ffurf arferol eleni o dan yr amgylchiadau presennol ac y byddai o bosib angen ystyried ffurf amgen i'w gynnal.</p> <p>Cytunwyd y dylid cadw golwg ar y sefyllfa gyda'r Pandemig a'r datblygiadau gyda'r gwahanol gyfyngiadau ar weithgareddau a busnesau fel gwestai ac anelu i wneud penderfyniad ar y mater yn y cyfarfod ym mis Medi gyda'r gobaith y bydd y sefyllfa yn gliriach bryd hynny.</p>
4	<p><u>MATERION ARIANNOL</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol.</p> <p>Adroddodd</p>

- bod 278 o aelodau wedi talu y tâl aelodaeth lawn o £20
- bod 34 o aelodau wedi talu'r hen dâl o £15 a 12 yn talu swm llai na £15.
- Bu'n rhaid gohirio y teithiau Gwanwyn i 'r Alban a Swydd Efrog tan y flwyddyn nesaf
- Bod y sefyllfa ariannol yn edrych yn iach ar hyn o bryd
- dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd parthed y sefyllfa hefo'r CMP a 'u tanysgrifiadau ond byddai angen ystyried tâl aelodaeth y Clwb yn y cyfarfod nesaf

Cytunwyd

i. derbyn y wybodaeth

ii. gofyn i EO, ar ôl cadarnhau y rhestr aelodaeth hefo DAP, drafod hefo Dewi a Haf i weld os oedd pawb ar eu rhestrau yn gymwys fel aelodau llawn i ddod ar deithiau'r Clwb. Os ddim byddai'n rhaid cael sgwrs hefo'r unigolion dan sylw.

iii. dylid ystyried tâl aelodaeth y Clwb yn y cyfarfod nesaf.

5. CAIS AM STATWS ELUSENNOL I'R CLWB

Adroddodd DAP bod y cais i gofrestru'r Clwb fel elusen wedi ei gyflwyno i'r Comisiynydd Elusennau a'u bod wedi cysylltu yn ôl yn gofyn am fwy o wybodaeth ar y materion a nodir isod.

Daeth i'r amlwg hefyd bod angen i'r Clwb fabwysiadau polisiau asesu risg a chofnodi damweiniau a bod gan y CMP dempledi y gallai clybiau eu defnyddio ar gyfer hyn.

Cytunwyd

i. dylid gyrru ymateb ar y llinellau isod i'r Comisiynydd Elusennau

ii. gofyn i DAP ddefnyddio templedi CMP ar gyfer cynhyrchu dogfennau asesu risg a chofnodi damweiniau i'r pwyllgor fabwysiadu yn ei gyfarfod neaf.

1. Rhowch fanylion pellach ynglŷn â chynnwys y gwasanaethau, sut y bydd hyn yn gweithio ar lefel logistaidd, sut y cynigir cefnogaeth a sut mae hyn yn hybu'r purpas er budd y cyhoedd. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl, gan ddefnyddio enghreifftiau lle bo hynny'n briodol.

Ymateb: Gweler y rhaglen weithgareddau sydd i'w chael ar y wefan

<http://www.clwbmynyddacymru.com/Rhaglen.htm> Mae'r rhaglen yn cael ei llunio mewn ymgynghoriad â'r holl aelodau fel bod perchenogaeth gan yr holl aelodau. Mae'n cael ei chymeradwyo gan y pwyllgor (sef yr ymddiriedolwyr). Anelir at gael rhaglen weithgareddau gynhwysol, sy'n cynnwys teithiau heriol a rhai llai heriol, i ddarparu ar gyfer gwahanol lefel o allu. Mae aelodaeth y Clwb yn agored i unrhyw un sy'n gwneud cais ac yn talu'r tâl aelodaeth, waeth beth fo'i gefndir. Anfonir y rhaglen at bob aelod ac mae hefyd ar wefan gyhoeddus y Clwb. Yn ogystal, mae'r Clwb yn trefnu diwrnodau blasu sy'n agored i bawb (aelodau a rhai sydd heb fod yn aelodau) er mwyn iddynt brofi'r gweithgareddau. Mae'r rhaglen weithgareddau yn rhoi cyfleon am ymarfer corff rheolaidd ac felly'n llesol i iechyd corfforol a meddyliol yr aelodau. Gofynnir i unrhyw un sydd am ymuno ar un o deithiau'r Clwb gysylltu ag arweinydd y daith erbyn y noson gynt i gael rhagor o wybodaeth ac er mwyn i'r arweinydd addasu'r trefniadau yn ôl nifer a gallu'r mynychwyr.

2. Pwy sy'n rhedeg y gwasanaethau a sut mae'r ymddiriedolwyr yn sicr bod ganddyn nhw gymwysterau addas i wneud hynny?

Ymateb: Penodir arweinydd (o blith aelodau'r Clwb) ar gyfer pob taith. Er nad oes gofyn cyfreithiol i arweinyddion gael cymwysterau penodol, mae nifer o'r arweinyddion wedi mynychu cyrsiau arwain mynydd ac mae'r Clwb yn annog aelodau i ymgymryd â hyfforddiant ac yn hwyluso hynny trwy noddi cyrsiau. Yn ogystal, mae gan nifer o aelodau brofiad helaeth o arwain ac mae'r ysgrifennydd gweithgareddau a'r pwyllgor yn ymwybodol o gefndir a phrofiad pob arweinydd. Mae'r pwyllgor wedi llunio

canllawiau sy'n nodi cyfrifoldebau arweinyddion – maent i'w cael ar y wefan <http://www.clwbmynyddacymru.com/pdf/Cyfrifoldebau%20arweinwyr%20teithiau.pdf> ac fe anfonir copi at bob arweinydd i'w hatgoffa pan lunnir y rhaglen gweithgareddau. Mae'r ymddiriedolwyr eu hunain yn ymuno yn y gweithgareddau'n rheolaidd. Yn aml bydd yr ymddiriedolwyr yn arwain teithiau eu hunain.

3. Sut mae'r ymddiriedolwyr yn gallu rheoli'r rhaglen gweithgareddau?

Ymateb: Mae'r rhaglen weithgareddau yn cael ei thrafod gan y pwyllgor cyn cael ei chyhoeddi. Mae'r pwyllgor wedi dynodi un o'r ymddiriedolwyr i gymryd cyfrifoldeb neilltuol dros gynnwys y rhaglen (yr ysgrifennydd gweithgareddau). Mae'n cael cymorth gan ddau drefnydd cynorthwyol. Y pwyllgor sy'n gosod y cyfeiriad a'r canllawiau ac yna mae manylion y teithiau'n cael eu trefnu gan yr ysgrifennydd gweithgareddau mewn ymgynghoriad â'r arweinyddion a'r ddau drefnydd cynorthwyol. Gofynnir am awgrymiadau gan yr holl aelodau cyn llunio'r rhaglen fel bod perchenogaeth gan yr aelodau'n gyffredinol ond mae'r cyfrifoldeb am y rhaglen yn nwylo'r pwyllgor. Ar gyfer teithiau preswyl mae'r pwyllgor wedi llunio canllawiau ychwanegol sy'n rhoi trefn ychydig yn wahanol -

<http://www.clwbmynyddacymru.com/pdf/Teithiau%20Preswyl%20-%20canllawiau.pdf>

4. Pa weithdrefnau sydd gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer mesur llwyddiant y gweithgareddau?

Ymateb: Gofynnir i arweinydd pob taith yrru adroddiad ynglŷn a'r daith a chofnod o'r niferoedd oedd arni at yr ysgrifennydd gweithgareddau cyn gynted ag y bo modd wedi'r daith. Cofnodir rhain ar y wefan. -

<http://www.clwbmynyddacymru.com/Teithiau.htm> Mae hyn yn caniatáu i'r pwyllgor asesu pa rai o'r gweithgareddau sydd fwyaf poblogaidd ac effeithiol a chymryd hynny i ystyriaeth wrth bennu'r rhaglen nesaf. Cyflwynir crynodeb o'r holl weithgareddau i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol bob blwyddyn gan gynnwys ystadegau ar nifer a mathau o deithiau, nifer yr arweinyddion a nifer yr aelodau sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau. Yn ogystal, mae gan yr ysgrifennydd gweithgareddau gysylltiad uniongyrchol hefo arweinydd pob taith.

5. Sut mae darpar fuddiolwyr yn gallu cyrchu'r gwasanaethau a gynigir?

Ymateb: Mae'r rhaglen ar y wefan a hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn agored i'r cyhoedd. Mae aelodaeth y Club yn agored i bawb. Anfonir y rhaglen at bob aelod ar ddechrau'r tymor ac yna anfonir nodyn atgoffa at bob aelod cyn pob taith. Mae rhyddid i aelodau ymuno ar y teithiau ond gofynnir iddynt gysylltu â'r arweinydd ymlaen llaw. Pe bae aelod o'r cyhoedd sydd ddim yn aelod o'r Club yn dymuno ymuno ar daith er mwyn blasu'r gweithgareddau caniateir hynny. Mae ambell ddigwyddiad e.e diwrnod blasu yn cael ei anelu at y cyhoedd yn gyffredinol er mwyn ennyn diddordeb mewn mynydda. Er mwyn dod â'i weithgareddau i sylw'r cyhoedd mae'r Club yn cynnal digwyddiad (darlith) ym mhob Eisteddfod Genedlaethol. Mae nifer yr aelodau oddeutu 280.

6. Dywedwch wrthym sut bydd y gofynion diogelu yn cael eu bodloni yn y gwasanaethau y byddwch chi'n eu darparu.

Ymateb: Mae pob ymddiriedolwr wedi derbyn linc i gyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau ar ddiogelu ac amddiffyn pobl ynghyd â chanllawiau "Yr Ymddiriedolwr Hanfodol". Mae'r pwyllgor wedi llunio nifer o wahanol bolisiau a chanllawiau yn ymwneud â diogelu:

polisi preifatrwydd <http://www.clwbmynyddacymru.com/pdf/Preifat.pdf>
 trefn o gael rhestr rhifau argyfwng ar gyfer y buddiolwyr sydd ar daith
<http://www.clwbmynyddacymru.com/pdf/Ffurflen%20Cyswllt%20A4.pdf>
 polisi a dogfen asesu risg
<http://www.clwbmynyddacymru.com/pdf/Asesu%20a%20Rheoli%20Risg.pdf> a
<http://www.clwbmynyddacymru.com/pdf/Asesiad%20Risg.pdf>
 ffurflen gofnodi damweiniau/ digwyddiadau
<http://www.clwbmynyddacymru.com/pdf/Ffurflen%20gofnodi%20damweiniau.pdf>
 Bydd unrhyw adroddiadau am ddamweiniau/ digwyddiadau yn cael eu trafod yn y
 pwyllgor. Mae'r ymddiriedolwyr yn cael eu penodi gan yr aelodau yn y cyfarfod
 cyffredinol blynyddol ac mae gwahoddiad i unrhyw un gynnig ei enw i wasanaethu ar
 y pwyllgor. Cyfyngir tymor y cadeirydd i ddwy flynedd yn unig. Mae yswiriant
 atebolrwydd mewn lle ar gyfer y gweithgareddau. Nid yw'r Clwb yn gweithio hefo plant
 na phobl fregus – mae croeso i unrhyw un dan 18 ymuno yn y gweithgareddau ond mae
 angen iddo fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol. Nid oes gan y Clwb staff cyflogedig;
 aelodau'r Clwb sy'n rhedeg y gweithgareddau'n wirfoddol.

6. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2020/2021

Adroddodd DP ei bod wedi llwyddo i gael lle ym Mhabell y Cymdeithasau yn Eisteddfod Tregaron ar 11 ar y bore
 dydd Gwener ar gyfer darlith Caradog Jones. Fodd bynnag fe ganslwyd yr Eisteddfod yn ddiweddarach oherwydd y
 Pandemig. Roedd cynnig gan y trefnwyr i gael yr un slot pan gynhelir yr Eisteddfod yn 2021 yn Nhregaron.

Cytunwyd y byddai DP yn cysylltu â Caradog a chyn belled â'i fod yn gytun, dylid derbyn y cynnig i gynnal y
 ddarlith ar yr un amser ag yr oedd i fod eleni yn 2021.

7. CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB

Ystyriwyd os oedd angen i'r Pwyllgor ystyried llunio rhaglen o weithgareddau a fyddai yn unol ag unrhyw ofynion yn
 deillio o'r angen i ddiogelu unigolion o'r feirws Covid19 pan fydd cyfyngiadau y cloi mawr yn cael eu llacio

Cytunwyd

i. ei fod yn gynamserol i ystyried llunio rhaglen ar hyn o bryd gan nad yw'n glir beth fyddai'r disgwyliadau/gofynion
 fyddai angen eu dilyn na pha bryd y byddai'r gwaharddiadau yn cael eu llacio
 ii gellid cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor os y teimlid fod y sefyllfa uchod wedi newid a'i bod yn gliriach ac yn
 bosib symud ymlaen i lunio rhaglen o weithgareddau

8. MATERION CMP

Adroddodd SW bod y CMP wedi gofyn iddo weithredu fel cydlynnydd ar gyfer grwpiau gwirfoddol yng Ngogledd
 Cymru a'i fod wedi ystyried y cynnig. Fodd bynnag golygai hyn y byddai disgwyl iddo fynychu cyfarfodydd yn
 Birmingham a chan ei fod yn gweithio'n llawn amser roedd wedi penderfynu na allai ymgymryd â'r swydd yma.
 Fodd bynnag roedd dal yn barod i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol y sefydliad yn y Gogledd.

Trafodwyd cynlluniau gan y CMP a Gareth Pierce i sefydlu Pwyllgor Cymru ac roedd cefnogaeth i'r bwriad ac i
 aelodau'r Clwb gyfrannu i'r broses os yn bosib.

Cytunwyd

i. nodi'r wybodaeth gan SW a diolch iddo am ei waith ar ran y Clwb gyda CMP

ii. gofyn i IAG gael gair hefo Gareth Pierce i weld os y byddai unrhyw strwythur ar sail Cymru a fyddai'n cael eu
 sefydlu yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth i gynnal cyfarfodydd.

9. MATERION Y BARTNERIAETH

Adroddwyd gan RG fod y Bartneriaeth wedi cytuno i gynnal cwrs cymorth 1af i aelodau'r Clwb ond yn anffodus bu'n rhaid ei ganslo oherwydd y Pandemig.

Cytunwyd nodi'r wybodaeth

10. CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR

Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ym mis Medi ond nodi hefyd y gallasai'r angen godi i gynnal cyfarfod yn gynt fel a drafodwyd eisoes.